Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Ymateb gan Reolwyr i Adolygiad Annibynnol: Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd | | |
| **Adroddiad at sylw:**<br><br>***Report to:*** | Y Pwyllgor Archwilio | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 16 Tachwedd 2022 | | |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn darparu ymateb cychwynnol y rheolwyr yn dilyn yr Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. | | |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad hwn. | | |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Phil Meakin, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Phil Meakin, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd<br>Elin Gwynedd, Pennaeth y Staff | | |
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br><br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am Sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br><br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br><br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br><br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br><br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Nid yw'n berthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle  bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Camau Nesaf:**<br>Gweithredu argymhellion<br>***Camau Nesaf/Next Steps:***<br>Rhoi'r argymhellion ar waith | |

**Pwyllgor Archwilio, 16 Tachwedd 2023**

**Adolygiadau Annibynnol o dan y Mesurau Arbennig - Ymateb gan Reolwyr**

**Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd**

## 1) Cefndir a chyd-destun

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn codi statws ymyrraeth y Bwrdd Iechyd (BIPBC) i lefel mesurau arbennig ar unwaith. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu pryderon difrifol a rhai heb eu datrys ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant y sefydliad, ansawdd ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethu, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol. Penodwyd nifer o Gynghorwyr Annibynnol er mwyn sefydlu tîm gwella a chynorthwyo yn BIPBC i ddarparu'r cymorth a'r cyngor sy'n ofynnol i alluogi BIPBC i weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn yr achos hwn, mae'r cymorth a'r cyngor yn cynnwys nifer o fesurau sy'n deillio o'r amcanion (monitro, sicrwydd, gwerthuso, canllawiau, anogaeth a chymorth) a bydd y cyfuniad o'r mesurau hyn yn cynnig sicrwydd i randdeiliaid (yn cynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd yn ehangach).

Mae'r adroddiad hwn yn darparu ymateb cychwynnol y rheolwyr yn dilyn yr Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd a gwblhawyd gan Gynghorydd Annibynnol.

## 2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Fe wnaeth y Cynghorydd Annibynnol a lywiodd yr adolygiad gyflwyno'r adroddiad i aelodau'r Pwyllgor yn ystod sesiwn ddatblygu ar 15 Medi 2023. Fe wnaeth hyn roi cyfle i'r Pwyllgor wrando ar yr arweinydd a gofyn cwestiynau.

Nid oes argymhellion penodol wedi'u cynnig yn sgil yr arolwg, ond mae meysydd ffocws wedi'u pennu. Mae'r meysydd ffocws hyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r themâu cyffredinol sydd wedi'u nodi o'r holl adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Mesurau Arbennig hyd yn hyn (gweler y mapio isod).

Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae nifer o adolygiadau ategol ar y gweill neu'n mynd rhagddynt (e.e. yr Adolygiad o Bortffolios y Gweithredwyr).

Os yw'r meysydd ffocws sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad eisoes yn dangos eu bod yn cyd-fynd ag adolygiadau eraill a gweithgarwch gwella arall (er enghraifft, yr Adolygiad o Bortffolios y Gweithredwyr), nid yw'r camau wedi'u cynnwys yma er mwyn osgoi dyblygu.

## 3) Adborth Allweddol o'r Sesiwn Ddatblygu ar 15 Medi 2023

1. Fe wnaeth y Cynghorydd Annibynnol gyflwyno adroddiad yr adolygiad a diolchodd hi i'r holl aelodau o'r staff a gyfrannodd am gydweithredu â hi.

2. Mae rôl Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd/llywodraethu yn allweddol o ran cadw'r Sefydliad, y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Staff yn ddiogel. Os na cheir llywodraethu llwyddiannus, ceir diffyg rheolaeth fewnol.

3. Ceir llawer o bwyntiau da yn yr adroddiad a chydnabyddir bod pobl yn gweithio'n ddiwyd iawn. Diben yr adolygiad hwn yw cynorthwyo'r aelodau hynny o'r staff a'r sefydliad. Mae annog hybu cynaliadwyedd y trefniadau Llywodraethu - mae angen sicrhau sefydlogrwydd - cyn safoni a sicrhau cynaliadwyedd. Dylai llywodraethu fod yn garreg sylfaen y sefydliad.

4. Mae angen Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol heb os, ond mae angen i rôl weithrediadol Ysgrifennydd y Bwrdd fod yn rôl ar wahân i alluogi ffocws. Mae'n gyfle cyffrous i adnewyddu a datblygu eu strwythur. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod yn rhaid rhoi rhai camau gweithredu ar waith yn ddi-oed, ac yn achos rhai eraill, efallai bydd yn rhaid disgwyl hyd nes y penodir Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (ac Ysgrifennydd y Bwrdd). Ar yr adeg hon, gellid dadlau dros ailenwi neu ailfrandio'r swydd yn 'Gyfarwyddwr Llywodraethu' i bwysleisio cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliad drwyddo draw.

5. Mae angen adolygu strwythur timau er mwyn adlewyrchu anghenion a bandio - mae angen i ddwy gangen wahanol y tîm gydweithio a bod yn fwy cytbwys. Mae angen esboniadau ynghylch y rolau er mwyn osgoi dyblygu a bylchau - beth mae pawb yn ei wneud/pwy sy'n arwain/cymorth gweinyddol ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd ac ynghylch Risgiau.

6. Cydnabuwyd hefyd y ceir nifer o swyddi gweigion a secondiadau ar hyn o bryd a bod angen gweithio ar sail grŵp llawn ac awgrymwyd diwrnodau angori yn y swyddfa at ddibenion ailgynnull. Roedd secondiadau o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd wedi gwanhau'r tîm.

7. Ceir rhywfaint o anghenion hyfforddiant cysylltiedig - ym maes Rheoli Ansawdd, a Llywodraethu Iechyd GIG Cymru yn enwedig.

8. Mae angen parhau i wella safonau sylfaenol sy'n pennu safonau cyffredinol y sefydliad cyfan - cywirdeb o ran rhestrau dosbarthu, enwau cyfarfodydd, llunio cofnodion cywir, camau gweithredu a fynegir yn gywir, rheoli fersiynau, arddulliau mewnol (llunio nodiadau). Mae angen sicrhau safon aur ac ymgorffori mesurau gwirio ansawdd. Bydd Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwneud y gwiriadau hyn. **Mae angen sefydlu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol** sy'n sicrhau gweithio a chyfathrebu ledled y sefydliad - dylid sicrhau bod gan bobl yr adnoddau a'u helpu i gydymffurfio/ysgrifennu'r papurau.

9. Bydd yn ofynnol bob amser cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Sefydlog a chanllawiau Llywodraethu Cymru heb orfod gwneud unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau (neu dim ond ychydig) - Cylchoedd Gorchwyl a Disgrifiadau Swyddi enghreifftiol ac ati - atebion rhwydd. Dylid adolygu Aelodaeth Pwyllgorau i sicrhau eu bod oll yn briodol, h.y. ni ddylai'r

Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio fynychu pob cyfarfod - mae angen gwahanu'r rolau. Dylai'r Pwyllgor Archwilio gynnig argymhelliad i'r Bwrdd i gymeradwyo'r holl Gylchoedd Gorchwyl.

10. O ran llif gwaith Llywodraethu, dylai cylch/rhaglen waith pwyllgorau/amserlen cyfarfodydd/blaen galendrau corfforaethol gael eu cynllunio a'u pennu ymhell o flaen law (awgrymir 2 flynedd ymlaen llaw). Nid yw'r llif a'r amseru presennol yn hollol addas, felly mae'n anodd cynnig sicrwydd i'r Pwyllgorau. Byddai'n ddefnyddiol llunio siart sefydliadol i ddangos y llif trwy'r sefydliad.

11. Mae angen cadarnhau pwy sy'n penderfynu beth a pha bwyllgorau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch materion penodol. A yw wedi'i drafod gan y Gweithredwyr yn gyntaf er mwyn cael penderfyniad a chynnig sicrwydd i'r Pwyllgorau/Bwrdd. Mae angen esboniad eglur ynghylch y llwybr llywodraethu a'r trywydd archwilio hyd at y pwyllgorau ac yna ar lefel y Bwrdd.

12. Mae angen i holl bwyllgorau'r Bwrdd fod wedi'u sefydlu a dylai'r dulliau Llywodraethu gael eu hadolygu.

13. Mae ffocws ar bobl a diwylliant yn un o'r bylchau o ran ystyriaethau Pwyllgorau.

14. Mae angen cryfhau dulliau olrhain yr archwilwyr ymhellach (ailymweliad ymhen 6 mis) er mwyn gallu triongli agweddau problemus ac olrhain cyflawni gofynion Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn drylwyr.

15. Mae angen i holl aelodau'r gweithlu ddeall eu rôl o ran cynorthwyo'r swyddogaeth lywodraethu. Mae angen cysylltiadau eglur ag amcanion y mesurau arbennig, felly mae angen cydweithio agos.

16. Is-gadeirydd a mwy o Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd - mae angen esboniadau eglur ynghylch eu rolau, cynefino, hyfforddiant, eu blaen galendr a'u blaen raglen waith.

17. Ystyried beth yw ein mesurau llwyddiant? Beth yn union yw ystyr 'da'? Pa fetrigau mae Byrddau Iechyd eraill yn eu defnyddio? Gellid gofyn i'r cynghorwyr arbennig a'r archwilwyr mewnol am gyngor yma. Bydd gan y Prif Weithredwr a Jo Williams syniadau ynghylch hyn hefyd a byddant yn dymuno cyfrannu.

## 4) Themâu Allweddol o'r Adolygiad

| **Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn** | **Perthnasol i'r adolygiad hwn** *Rhowch X yn y blwch os yw'n berthnasol* |
|---|---|
| **1. Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad** Sicrhau bod yna ddull gweithredu ar draws y sefydliad gydag ymyriadau wedi'u blaenoriaethu er mwyn gwella ein data, ein gwybodaeth a'n hadnoddau a'n galluoedd i gael mewnwelediad. Bydd hyn yn alluogwr allweddol ar gyfer gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â chynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol. | ☐ |
| **2. Diwylliant** Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu. | ☒ |
| **3. Rheoli Risg** Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro. | ☒ |
| **4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr** Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain ein gwelliant parhaus yn y gwasanaeth. | ☐ |
| **5. Model gweithredu** Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder ar rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn isadrannau a gwasanaethau PBC Gyfan, i bawb ar bob lefel o'r sefydliad | ☐ |
| **6. Llywodraethu a chydymffurfiaeth yn y sefydliad** | ☒ |

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod arferion gorau o ran llywodraethu yn amlwg ledled y sefydliad a bod pobl ledled y sefydliad yn deall hynny, a sicrhau y cydymffurfir â hynny. | |
| **7. Cynllunio Integredig**<br>Agwedd integredig a ddeallir yn dda, at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol. | ☒ |

## 4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

## Tabl 1: Cynllun Gweithredu Ymateb y Rheolwyr

*Sylwch y bydd y canlyniadau a'r cerrig milltir ym meysydd y Mesurau Arbennig yn llywio gweithredu'r argymhellion allweddol yn yr Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae'r camau isod yn ychwanegol i'r rheiny ac maent yn adlewyrchu rhai o'r camau gweithredu penodol y cyfeiriwyd atynt yn y Sesiwn Ddatblygu (Adran 3 uchod).*

| **Diwylliant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| 1 | Sefydlwyd Rhaglenni Sefydlu'r Bwrdd ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd sy'n ategu rôl gynorthwyol Llywodraethu yn y sefydliad er mwyn sicrhau bod "Diwylliant Llywodraethu" yn parhau i ddatblygu. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 3/11/2023 | | Cytunwyd ar Raglen Sefydlu'r Bwrdd gyda'r Cadeirydd ac mae'n barod i'w rhoi ar waith.<br><br>Cafwyd adborth da gan Aelodau Annibynnol newydd. |
| 2 | Dylid cytuno Rhaglenni Datblygu'r Bwrdd yn ystod 2023/24 gyda'r Cadeirydd a dylai'r rhaglenni hynny adlewyrchu pwysigrwydd Arweinyddiaeth a Diwylliant ynddo. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 30/11/2023 | | Mae drafft o Raglen Datblygu'r Bwrdd yn cael ei ddatblygu a chaiff ei anfon at y Cadeirydd erbyn 20 Tachwedd fel y gall adolygu'r cynnwys. Cwblhawyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynnig ar gyfer 2024/25 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Bydd y camau gweithredu a nodir uchod yn annog “Diwylliant Llywodraethu” cryfach. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 30/11/2023 | | Wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ac yn yr argymhellion manwl.<br><br>Dylid nodi derbyn Adolygiad Diweddaredig o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gyhoeddwyd ar 15 Chwefror 2024, yn nodi gwelliannau a'r ffocws o ran gwelliannau ychwanegol gofynnol. |
| 4 | Sefydlu Pwyllgor Pobl | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 1/3/2024 | | Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Pobl yn cynnwys ystyried Diwylliant ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 28 Medi 2023. Dylid nodi bod hyn yn dibynnu ar recriwtio Aelodau Annibynnol yn effeithiol.<br><br>Diweddariad - Mae bellach wedi'i weithredu a'i enw yw Pwyllgor Pobl a Diwylliant |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd iawn, **Oren**: Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch**: Ddim ar y trywydd heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

| Rheoli Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| 5 | Cyfuno'r swyddogaeth Rheoli Risg â swyddogaeth Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i sicrhau bod "Rheoli Risg Corfforaethol" a "Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd" yn cael eu rheoli gan yr un tîm. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 11/11/2023 | | Dull dros dro o ymdrin â thîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd sydd wedi cynnwys y Tîm Rheoli Risg yn adrodd i Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd.<br><br>Datblygwyd y Fframwaith Rheoli Risg ac fe'i cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd.<br>Mae'r Gweithdrefnau Rheoli Risg a'r Cynllun Rheoli Risg hefyd wedi'u cymeradwyo erbyn hyn.<br><br>Mae dull BAF 2023/24 wedi'i ddatblygu ac mae'n barod i gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Dîm y Gweithredwyr a'r Pwyllgorau.<br><br>Bellach, ceir un tîm sy'n rheoli'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. |
| 6 | Dylai'r Hyfforddiant ynghylch Rheoli Risg gael ei adolygu yn sgil y Fframwaith newydd. | Pennaeth Rheoli Risg | 30/11/2023 | | Mae'r dull wedi'i ddatblygu ac mae angen cynllun gweithredu i sicrhau y caiff ei roi ar waith yn effeithiol.<br><br>Cafodd yr Hyfforddiant ynghylch Rheoli Risg ei adolygu a'i gymeradwyo gan Dîm y Gweithredwyr ar 14 Chwefror 2024. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd iawn, **Oren**: Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch**: Ddim ar y trywydd heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

| Llywodraethu a Chydymffurfio yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| 7 | Recriwtio i lenwi rôl Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | Prif Weithredwr | 9/11/2023 | | • Cafodd y rôl ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl ym mis Medi 2023.<br>• Roedd y Bwrdd yn barod i hysbysebu'r swydd ym mis Tachwedd 2023.<br>• Penodwyd Pam Wenger a bydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2024. |
| 8 | Ad-drefnu Tîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd trwy gyfrwng adolygiad.<br><br>Datblygu dull tymor byr i'w ddefnyddio yn y cyfamser. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | Caiff hynny ei gadarnhau pan fydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd wedi cychwyn. | | • Dylai'r rhaglen Newid Sefydliadol bennu'r amserlenni.<br>• Yn y cyfamser, mae dull dros dro wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r tîm sy'n ychwanegu Rheoli Risg at y strwythur ac mae'n sicrhau bod swyddogaethau dwy "adain" y Gyfarwyddiaeth yn eglur. Mae'n adlewyrchu'r ymgysylltu â'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Staff.<br>• Defnyddir y dull dros dro nes bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2024. |
| 9 | Mae dyddiadau'r diwrnodau angori wedi'u cytuno â staff allweddol Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 1/11/2023 | | • Cytunwyd a chadarnhawyd hynny. Adolygu effeithiolrwydd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2023<br>• Mae effeithiolrwydd wedi'i adolygu ac mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y bydd holl aelodau'r tîm yn elwa o hyn. Cytunwyd bod y tair swydd y dylai eu deiliaid dreulio amser gyda'i gilydd wedi'u nodi a chânt eu monitro gan gychwyn o 1 Mawrth 2024 ymlaen. |
| 10 | Dylid sicrhau bod staff sydd wedi'u secondio yn dychwelyd a dylid dirwyn gwaith staff asiantaethau i ben. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 7/11/2023 | | • Gweithredwyd a chwblhawyd hynny. Mae'r Pennaeth Materion Corfforaethol a'r Arweinydd Polisi wedi dychwelyd ar ôl i'w secondiad ddod i ben.<br>• Mae gwaith staff asiantaethau bellach wedi dod i ben.<br>• Cwblhawyd secondiad y Pennaeth Materion Corfforaethol ac mae bellach yn aelod o dîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Mae angen Hyfforddiant Llywodraethu yn ymwneud â'r disgyblaethau sylfaenol ac ynghylch deall gofynion Llywodraethu GIG Cymru. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | Trwy gydol 2023/24 | | • Cytunwyd ar yr arddull mewnol y dylid ei ddefnyddio i lunio cofnodion a dylid datblygu hynny erbyn diwedd Rhagfyr 2023. Mae'r Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol wedi nodi arddull mewnol y dylid ei ddefnyddio ac mae'r manylion wedi'u rhannu â'r tîm.<br>• Dylid datblygu a chytuno ar hyfforddiant ynghylch Gofynion Llywodraethu GIG Cymru â chymorth gan rwydwaith ehangach y Cyfarwyddwr Llywodraethu. Cafodd yr uwch dimau hyfforddiant ynghylch contractau a chaffael.<br>• Bydd rhagor o waith ynghylch hyn yn digwydd a bydd sylw yn cael ei roi i ddulliau ysgrifennu adroddiadau gan arweiniad y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. |
| 12 | Datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | Tachwedd 2023 | | • Datblygwyd gan Dîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd a chymeradwywyd gan Dîm y Gweithredwyr.<br>• Cafodd ei archwilio yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 16 Tachwedd a'i gymeradwyo. |
| 13 | Datblygu strwythur y Pwyllgorau a'r Cylchoedd Gorchwyl cysylltiedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 30/11/2023 | | • Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo strwythur y Pwyllgorau ar 28 Medi.<br>• Mae cwblhau gan gyflawni statws gwyrdd yn dibynnu ar allu recriwtio Aelodau Annibynnol yn effeithiol a datblygu Cylchoedd Gorchwyl, Cynlluniau Gwaith a chalendr corfforaethol i ategu hynny.<br>• Adolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 16 Tachwedd 2023.<br>• Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 25 Ionawr 2024. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd iawn, **Oren**: Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch**: Ddim ar y trywydd heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

| Cynllunio Integredig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG**[1] | **Diweddariad ar gynnydd** |
| 14 | Dylid defnyddio'r amcanion strategol yn y Cynllun Blynyddol i lywio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | Pennaeth Rheoli Risg | 30/11/2023 | | • Mae angen eglurder ynghylch yr Amcanion Strategol i sicrhau y bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn wirioneddol effeithiol.<br>• Mae Amcanion Strategol newydd yn cael eu datblygu a chânt eu hystyried gan y Bwrdd yn ystod mis Mawrth.<br>• Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn arddangos Amcanion y Cynlluniau sy'n gysylltiedig â phob risg. |
| 15 | Dylid sicrhau y caiff amcanion y Cynllun Blynyddol eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwaith y Pwyllgorau a'r Bwrdd. | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | 30/1/2024 | | • Mae Cynlluniau Gwaith y Pwyllgorau yn cael eu diweddaru yn ystod Tachwedd 2023.<br>• Mae'r rhain wedi'u cwblhau a chafwyd hwy yng nghyfarfod y Bwrdd yn Ionawr 2024. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd iawn, **Oren**: Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch**: Ddim ar y trywydd heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn
mesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn